Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Seithfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mehefin 2023

senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddSafonau@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Seithfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mehefin 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddSafonau**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**

# Seithfed adroddiad i'r Chweched Senedd o dan Reol Sefydlog 22.9

Mehefin 2023

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Trafod y gŵyn....4**

**3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor....5**

**4. Materion o Egwyddor Gyffredinol....8**

# 1. Cyflwyniad

**1.** Nodir cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ("y Pwyllgor") yn Rheol Sefydlog 22[1]. Yn unol â'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 22.2, mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

> *"mewn perthynas ag unrhyw gŵyn a gyfeirir ato gan y Comisiynydd Safonau… ymchwilio i'r gŵyn, cyflwyno adroddiad arni ac, os yw'n briodol, argymell camau mewn perthynas â hi."*[2]

**2.** Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 22.9 a pharagraff 8.23 o'r Weithdrefn ar gyfer Ymdrin â Chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd ("y Weithdrefn")[3] ac mae'n ymwneud â chŵyn a wnaed i'r Comisiynydd Safonau ("y Comisiynydd").

---

[1] **Rheolau Sefydlog**
[2] **Rheol Sefydlog 22.2(i)**
[3] **Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau o'r Senedd**

# 2. Trafod y gŵyn

**3.** Gwnaed cwyn i’r Comisiynydd mewn perthynas â neges a bostiwyd ar Twitter gan Aelod o'r Senedd yr oedd yr achwynydd o'r farn ei bod yn fwriadol gamarweiniol a bod risg iddi niweidio enw da'r Senedd.

**4.** Nododd yr achwynydd ei farn bod y neges yn groes i’r egwyddorion o ran gonestrwydd, uniondeb a bod yn agored, a bod yr Aelod, drwy gyhoeddi rhywbeth nad oedd yn wir, wedi torri Rheol 2 o’r Cod Ymddygiad.

**5.** Cafodd y Comisiynydd sylwadau gan yr Aelod a'r achwynydd cyn penderfynu bod y gŵyn yn dderbyniadwy.

**6.** Cyfarfu’r Pwyllgor ar 24 Ebrill a 22 Mai 2023 i drafod adroddiad y Comisiynydd a dod i’w gasgliad mewn perthynas â’r gŵyn hon.

**7.** Mae'r Pwyllgor wedi cynnwys y rhannau perthnasol o adroddiad y Comisiynydd yn yr adroddiad hwn, a hynny heb ddatgelu manylion y rhai y mae’r gŵyn hon yn ymwneud â hwy.

**8.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion y gŵyn a thrafodaethau'r Pwyllgor wrth ddod i’w benderfyniad.

**9.** Darparwyd copi o'r adroddiad hwn i'r Aelod dan sylw ac i’r achwynydd.

# 3. Y broses o drafod Penderfyniad y Pwyllgor

**10.** Bu'r Pwyllgor yn trafod a dorrodd yr Aelod Reol Sefydlog 22.1(i).

**11.** Wrth drafod p'un a dorrwyd y rheol ai peidio, adolygodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Comisiynydd fel y'u nodir yn ei adroddiad. Cafodd y Pwyllgor sylwadau ysgrifenedig hefyd gan yr achwynydd am y casgliad yn adroddiad y Comisiynydd. Cyfeiriodd y Pwyllgor y sylwadau hyn yn ôl at y Comisiynydd a rhannodd ymateb y Comisiynydd â'r achwynydd. Yna, adolygodd y Pwyllgor y sylwadau ysgrifenedig pellach a wnaed gan yr achwynydd.

**12.** Ni fanteisiodd yr Aelod ar y cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig na sylwadau llafar i'r Pwyllgor.

**13.** Canfu'r Comisiynydd nad oedd yr Aelod yn bwriadu camarwain unrhyw un pan roddodd ddisgrifiad [o gwmni] sy'n ddiamau yn anghywir ac nad oes tystiolaeth bod unrhyw un wedi cael ei gamarwain gan y disgrifiad hwnnw. Rhannodd y Comisiynydd ei ganfyddiadau ffeithiol â'r achwynydd a'r Aelod yr oedd y gŵyn yn ymwneud ag ef cyn paratoi ei adroddiad terfynol. Cadarnhaodd yr Aelod ei fod wedi derbyn y canfyddiadau. Ni ymatebodd yr achwynydd. Yn unol â pharagraff 7.3 o'r Weithdrefn, barnwyd bod y ffeithiau wedi eu derbyn. Wrth roi ei farn resymol, nododd y Comisiynydd fod yr achwynydd wedi gwneud fel a ganlyn:

> *"… asserted that the Member's 'tweet clearly breaches the overarching principals of Honesty, Integrity and Openness, in breach of Rule 1 of the Code of Conduct on the Standards of Conduct of Members of the Senedd.' I do not agree. Given my findings, which the Complainant is deemed to have accepted , the Member's conduct cannot reasonably be described as dishonest. I do not accept that the Honesty Principle was breached. Whilst the Member's conduct may have caused some to question his judgement, I am not of the opinion that it was of a kind that would undermine the public's trust and confidence in the integrity of the Senedd or bring it or its Members generally, into disrepute. I do not consider that the Integrity Principle was breached. In my opinion the Openness Principle was not engaged by the Member's admitted conduct. I am satisfied that no other relevant provision has been breached."*

**14.** Yn dilyn sylwadau gan yr achwynydd a thrafodaeth y Pwyllgor ynghylch yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiynydd roi eglurhad ynghylch yr adran o'r canllawiau ar y Cod Ymddygiad sy'n ymwneud â'r Egwyddor Gonestrwydd ac ar sut y mae'n mynd ati i wneud penderfyniadau o ran yr hyn 'y dylai Aelodau fod yn gwybod' ei fod yn ffug[4].

**15.** Nododd y Comisiynydd mewn gohebiaeth:

> *"The representations are, in the main, based on the proposition that any statement that is untrue is a breach of the Honesty Principle. As Finding of Fact iv made clear, [the Member] was aware that the statement … was not accurate: no question of what [the Member] ought to have known arose.*
>
> *If a statement breaches that Principle, it must be dishonest. Dishonesty is normally defined as including some element of deceit, fraud or moral turpitude. Whilst all dishonest statements are incorrect not all incorrect statements are dishonest.*
>
> *The supporting text to the Honesty Principle requires that Members be truthful. In my opinion given the context that must be interpreted as meaning no more that Members must be honest and not dishonest.*
>
> *In Finding vi I found that [the Member] had no intention of misleading anyone. That was not challenged by the complainant. I was satisfied that although the tweet was incorrect there was no element of deceit, fraud or moral turpitude. I was not satisfied that the tweet was either dishonest or untruthful. Rather it was a rather clumsy but inaccurate shorthand statement which [the Member] corrected the next day.*
>
> *Support for this interpretation of the Honesty Principle is to be found in paragraphs 58 – 60 of the Guidance on the Code of Conduct which deal with Rule 2 (Members must act truthfully). Paragraph 60 states 'A complaint would normally be based on an alleged lie' whilst paragraph 59 makes clear that not all*

[4]Ni ddylai Aelodau wneud datganiadau y maent yn gwybod – neu y dylent fodyn gwybod - eu bod yn ffug

> *incorrect statements would be regarded as untrue for the purposes of that Rule.*
>
> *In considering this matter the Committee may wish to have regard to the possible consequences of adopting the complainant's interpretation that any inaccurate statement by a Member, even where there was no intention to mislead or deceive and the inaccuracy has been corrected, would constitute a breach of the Honesty Principle. I suspect that adopting that interpretation would, particularly in the run-up to elections, lead to a significant increase in the number of admissible but trivial complaints about Members' use of social media which would, unless rectification was an option, all have to be investigated and reported to the Committee."*

**16.** Nododd y Pwyllgor yr ymateb hwn a sylwadau pellach gan yr achwynydd ar y mater hwn.

**17.** Roedd y Pwyllgor o'r farn bod neges yr Aelod yn destun gofid am ei bod yn cynnwys terminoleg ddifeddwl.

**18.** Gwnaeth y Pwyllgor nodi ac ystyried yn ofalus sylwadau'r Comisiynydd ynghylch anonestrwydd a sut y mae'n pennu'r safonau disgwyliedig wrth ymdrin ag achos o dorri amodau'r Cod Ymddygiad sy'n ymwneud â'r egwyddor gonestrwydd. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r Comisiynydd bod y cysyniad cyfreithiol ehangach o ran gonestrwydd yn ymwneud â mwy na datganiad anghywir neu ddifeddwl, ac felly nad oedd y 'trothwy' wedi ei fodloni'r tro hwn gan nad oedd tystiolaeth glir o fwriad.

Ar ôl trafod y wybodaeth a oedd ar gael a'r holl sylwadau, cytunodd y Pwyllgor â chasgliad y Comisiynydd nad oedd hwn yn achos o dorri amodau'r Cod Ymddygiad.

# 4. Materion o Egwyddor Gyffredinol

**19.** Fel y nodir uchod, roedd y Pwyllgor o'r farn bod y neges yn destun gofid. Nododd y Pwyllgor ganfyddiad y Comisiynydd bod yr Aelod wedi cywiro'r neges y diwrnod canlynol. Ar yr achlysur hwn, rhoddwyd cywiriad drwy ymateb i'r edefyn gwreiddiol. Yn ei sylwadau pellach, mae'r achwynydd yn awgrymu y dylai Aelod wneud fel a ganlyn wrth gywiro neges ar Twitter:

> *"... apologise, correct the record in a way that is appropriate to the number of people who saw the untrue statement, and retract the untrue statement where possible."*

**20.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn hon, a hoffai atgoffa'r holl Aelodau ei bod yn ddyletswydd arnynt i gywiro negeseuon Twitter mewn modd sy'n gymesur â'r neges wreiddiol. Nid yw'r Pwyllgor am ragnodi sut y dylai Aelodau dynnu unrhyw ddatganiadau yn ôl, ond dylid ystyried y materion a ganlyn:

- ble y caiff datganiad ei dynnu'n ôl – naill ai yn yr edefyn os yw'r sgwrs yn dal i fod yn weithredol, neu yn y neges wreiddiol neu'r ddau; ac
- a ddylid dileu'r neges wreiddiol.

**21.** Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Prif Weithredwr a'r Clerc yn gofyn a ellir ystyried cynnwys adran ar dynnu datganiadau yn ôl a chywiro cofnodion mewn hyfforddiant yn y dyfodol i Aelodau a staff yn trafod y cyfryngau cymdeithasol.

**22.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cysyniad o onestrwydd a fabwysiadwyd gan y Comisiynydd wedi'i seilio ar egwyddor gyfreithiol sefydledig yn hytrach na'r ddealltwriaeth fwy cyffredin o onestrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi'r angen am 'drothwy' clir , fel y'i nodwyd gan y Comisiynydd, er mwyn sicrhau na fydd y Cod Ymddygiad yn cynnwys, drwy amryfusedd, ddatganiadau anghywir nad ydynt yn gyfystyr â bod yn anonest nac yn torri amodau'r Cod fel arall. Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r canllawiau perthnasol ar y Cod Ymddygiad i sicrhau eu bod yn glir o ran y dull cywir o ddehongli a'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn hyn o beth.